Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Coed Graigddu, Trawsfynydd

HAMDDENOL




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 5km (3.1 milltir)
- Hyd: Oddeutu 1 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru



1

Dechreuwch eich taith drwy ddilyn yr arwydd i'r dde allan o'r maes parcio ar hyd y ffordd raean.



2

Ar ôl oddeutu 200m ar y ffordd raean, ewch i'r chwith ar y gyffordd gyntaf.



3

Byddwch yn ymwybodol o'r anifeiliaid wrth fynd heibio Graigddu Isaf ar eich dde. Parhewch i'r chwith o'r ffermdy a chroesi'r bont yn syth o'ch blaen.



4

Cyn hir mi welwch arwydd ar eich dde tuag at Bwlch Tyddiad. Parhewch i ddilyn llwybr Bwlch Drws Ardudwy.



5

Ar ôl 200m pellach, dilynwch y llwybr i'r dde gan fynd heibio'r giât bar metel.



6

Parhewch ar y trac ac ar ôl 600m dilynwch y trac i'r dde.



7

Parhewch ar y trac am oddeutu 1km.



8

Ar y gyffordd nesaf, dilynwch y trac i'r dde gan anwybyddu arwydd pren Bwlch Drws Ardudwy.



9

Parhewch ar y trac ac ar ôl 600m dilynwch y trac i'r dde.




Dilynwch y llwybr trwy'r blanhigfa am 300m pellach.




Yn fuan mi ddowch at gyffordd, ewch i'r dde a dilyn arwydd Pistyll Gwyn.




Ar ôl 500m, byddwch yn mynd heibio rhaeadr fechan ar eich chwith (Pistyll Gwyn). Ar ôl 500m pellach, byddwch yn cyrraedd at gyffordd-T. Trowch i'r chwith a dilyn y llwybr yn ôl i'r maes parcio.